Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**GWEITHDY SENEDDWRAGEDD Y GYMANWLAD:**

# SENEDDWYR FEL LLYW-WYR AR GYFER YMRYMUSO ECONOMAIDD I FENYWOD

28 Ebrill – 4 Mai 2025;
Nassau, y Bahamas

**Adroddiad gan Sioned Williams AS**



Roedd yn fraint i gynrychioli Senedd Cymru yng ngweithdy y CWP yn Nassau, Y Bahamas yn ystod 28 Ebrill - 2 Mai 2025.

Thema’r gweithdy oedd seneddwyr fel llyw-wyr ar gyfer ymrymuso economaidd i fenywod a chafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau amserol a defnyddiol dros bedwar diwrnod llawn o weithdy, gan ryw 60 o gynrychiolwyr o Seneddau ar draws y Gymanwlad ac arbenigwyr polisi. Archwiliwyd themâu cyffredin fel diffyg cynrychiolaeth democrataidd, tuedd anymwybodol yn y cyfryngau ac o fewn deddfwriaeth, ac elfennau misogynistaidd o fewn diwylliant sy'n rhwystro datblygiad potensial economaidd menywod. Cyflwynwyd persbectif unigryw y gwahanol rhanbarthau a chenhedloedd yn ogystal, gan drafod y cyfleon sydd o fewn diwylliannau a strwythurau is-wladwriaethol i herio naratifau a disgwrs prif-lif. Roedd hefyd gyfle i ymweld â busnesau yn Nassau oedd yn cael eu cefnogi gan fenter busnes sy'n hyrwyddo cyfleon economaidd i fenywod,  a rhwydweithio gyda chynrychiolwyr lleol mewn cyfres o ddigwyddiadau yn Senedd y Bahamas, a'u gwylio wrth eu gwaith.

Cyfrannais bapur ar y sefyllfa yng Nghymru o ran safle economaidd menywod a thafoli ymdrechion i geisio mynd i'r afael â diffygion polisi sy'n creu ac yn dyfnhau anghydraddoldeb. Gan dynnu ar fy mhrofiad proffesiynol fel cyn-newyddiadurwr archwiliais y cwestiwn o sut gallwn ddefnyddio un o'r arfau cenedlaethol a diwylliannol mwyaf grymus - y cyfryngau - i gyfathrebu a hybu ymrymuso economaidd menywod. Prif bwyntiau trafod fy mhapur oedd cyflwyno enghreifftiau o ddefnyddio ddiwylliant ac iaith i leoleiddio a chyfoethogi naratifau ynghylch ymrymuso economaidd menywod a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol; pwysigrwydd ariannu a chefnogi hyfforddiant cyfryngau, prosiectau cyfryngau ac adrodd straeon dan arweiniad menywod; tanlinellu modelau economaidd amgen—co-ops, mentrau cymdeithasol, economïau anffurfiol a herio diffiniadau Gorllewinol, cyfalafol, sy'n canolbwyntio yn bennaf ar fodelau corfforaethol, o lwyddiant economaidd. Fy nadl oedd bod dim rhaid i rymuso economaidd olygu dynwared Silicon Valley. Gall olygu buddsoddi mewn gofal, cyfoeth cymunedol, economïau cylchol—ac adrodd straeon - oherwydd gall newid pwy sy'n adrodd y stori newid y diweddglo. Felly rhaid i ni fel cynrychiolwyr chwilio am straeon llwyddiant yn ein cymunedau a'u rhannu, er mwyn amlygu entrepreneuriaid, arloeswyr ac arweinwyr benywaidd ar draws ein cenhedloedd—yn enwedig y rhai o gefndiroedd sydd wedi eu tan-gynrychioli.

Un o'r sesiynau mwyaf gwerthfawr o ran creu well ddealltwriaeth o sut o fynd ati i gyflawni gwell ymrymuso economaidd oedd y cyflwyniad oedd yn edrych yn benodol ar sut i wella gallu cyfreithiau a'r broses ddeddfwriaethol—yn enwedig y sesiwn ar graffu ôl-ddeddfwriaethol. Gorffennodd y gweithdy arbennig o werthfawr hwn gyda chyflwyniadau gan a thrafodaeth gyda aelodau benywaidd o senedd ieuenctid y Bahamas. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr yn y gwaith sy'n cael ei wneud yng

Nghymru o ran y Senedd Ieuenctid a chynigais helpu i sicrhau gwell gysylltiad a chyfle i ddysgu wrth ein gilydd.

Rwy'n hynod falch dy mod wedi cael cynnig i gyhoeddi fy mhapur yng Nghylchgrawn The Parliamentarian (Annex A), ac yn edrych at ymlaen at fwrw ati i ddefnyddio yr hyn ddysgais yn fy ngwaith fy hun fel aelod etholedig, a lledaenu y wybodaeth honno ymhlith fy nghyd-ASau yng Nghymru.

